



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru

Cylchlythyr

Rhif y cylchlythyr:	W-FRSC(2016)13	Dyddiad cyhoeddi:	13 Mehefin 2016
---------------------	----------------	-------------------	-----------------

Statws:	I'w Weithredu
---------	---------------

Teitl:	Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) – Adolygu'r Ffactorau Cyfnewid SCAPE – Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2015 (Cymru)
--------	---

Cyhoeddir gan:	Cerys Myers Y Gangen Gwasanaethau Tân
----------------	--

I'w anfon at:	Anfonwch hwn ymlaen at:
Prif Swyddogion Tân Cadeiryddion Awdurdodau Tân ac Achub Clercod i'r Awdurdodau Tân ac Achub	Trysoryddion Swyddogion Pensiwn

Crynodeb

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 16 Mawrth 2016 newid yng nghyfradd ostyngiad SCAPE a ddefnyddir i gyfrifo cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus.

O ganlyniad i'r cyhoeddiad, mae Actiwari'r Llywodraeth wedi adolygu'r ffactorau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau aelodau dan gynllun pensiwn y diffoddwyr tân.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:	
Cerys Myers Y Gangen Gwasanaethau Tân Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru Swyddfa Merthyr Tudful, Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ	Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8679 E-bost: cerys.myers@wales.gsi.gov.uk Gwefan: www.llyw.cymru/tan

1. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 16 Mawrth 2016 newid yng nghyfradd ostyngiad SCAPE a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus.
2. Nid yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli, ac ni chaiff Llywodraeth Cymru ymdrin ag ymholiadau am gyhoeddiad y Trysorlys. Fodd bynnag, mae'n effeithio'n uniongyrchol ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a hawliau aelodau'r cynllun; ac rydym yn ei drosglwyddo yn unol â hynny.
3. O ganlyniad i'r cyhoeddiad, mae Actiwari'r Llywodraeth wedi adolygu'r ffactorau a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau aelodau dan gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Pan fo angen gwneud hynny, maent yn diweddarau'r canllawiau a'r ffactorau presennol trwy ychwanegiadau fel yr esbonnir isod.

Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2015 (Cymru): Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod Unigol

4. Mae'r nodyn canllaw yn Atodiad 1 yn nodi'r modd cyffredinol o gyfrifo:
 - Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod Statudol (nad yw'n gynllun Clwb); a
 - Y buddion i'w darparu ar gyfer Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod sy'n dod i mewn

Mae'r gyfres o Ffactorau sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 2 yn darparu tablau o ffactorau sy'n ofynnol o dan y canllawiau.

5. Mae'r Ychwanegiad yn Atodiad 3 yn darparu tablau wedi eu diweddarau o ffactorau â dyddiad gweithredol o 16 Mawrth 2016. Mae hefyd yn cynnwys, er gwybodaeth ac er mwyn nodi'r ffeithiau cyflawn, dablau o'r gyfres o ffactorau nad yw'r adolygiad yn effeithio arnynt. Dylid darllen yr ychwanegiad hwn ar y cyd â'r nodyn canllaw yn Atodiad 1 a'r gyfres o ffactorau yn Atodiad 2.

6. Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr **W-FRSC(2015)11**.

Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2015 (Cymru): Taliadau Lwfans Blynyddol: y Cynllun yn talu taliadau gwrthbwysu

7. Mae'r nodyn canllaw yn Atodiad 4 yn nodi'r dull cyffredinol o asesu:
 - Y taliad pensiwn gwrthbwysu tybiannol a gymhwysir i fuddion aelod o Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân ar gyfer pob blwyddyn y maent yn ysgwyddo Taliad Lwfans Blynyddol, a
 - Yr union daliad pensiwn gwrthbwysu a gymhwysir i bensiwn yr aelod pan fydd yn ymddeol
8. Mae'r ychwanegiad yn Atodiad 5 yn darparu tablau diweddar o ffactorau â dyddiad gweithredol o 16 Mawrth 2016. Mae hefyd yn cynnwys, er gwybodaeth ac er mwyn nodi'r ffeithiau cyflawn, dablau o'r nodyn canllaw nad yw'r adolygiad yn effeithio arnynt. Dylid darllen yr ychwanegiad hwn ar y cyd â'r nodyn canllaw yn Atodiad 4.

9. Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol a gyflwynwyd yng nghylchlythyr **W-FRSC(2015)20**.

Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 2015 (Cymru): Rhannu Pensiwn mewn achos o Ysgariad

10. Mae'r canllawiau yn Atodiad 6 yn nodi'r dull cyffredinol ar gyfer:

- Priso gwerthoedd cyfwerth ag arian parod;
- Cyfrifo Credydau Pensiwn;
- Cyfrifo Debydau Pensiwn.

11. Mae'r ychwanegiad yn Atodiad 7 yn darparu tablau diweddar o ffactorau â dyddiad gweithredol o 16 Mawrth 2016. Mae hefyd yn cynnwys, er gwybodaeth ac er mwyn nodi'r ffeithiau cyflawn, dablau o'r nodyn canllaw nad yw'r adolygiad yn effeithio arnynt. Dylid darllen yr ychwanegiad hwn ar y cyd â'r nodyn canllaw yn Atodiad 6.

12. Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr **W-FRSC(2015)16**.

Cerys Myers
Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru